# Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## ELLS(2) 11-06(p8)

### Dyddiad: 5 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1
### Teitl: Y Mesur Diogelu Grwpiau Agored i Niwed - Mesur 194 yn 2005-06.

**Mae'r papur hwn yn rhoi:**

- Amlinelliad o'r Mesur
- Crynodeb o'r prif bwyntiau
- Dogfennau allweddol eraill

**Y Mesur**

Nod y Mesur, a gafodd ail ddarlleniad ar 19 Mehefin 2006, yw sefydlu Bwrdd Gwahardd Annibynnol a fydd yn gyfrifol, â chymorth y Swyddfa Cofnodion Troseddol, am gynnal dwy restr o unigolion a waherddir rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.

Mae'r Mesur hefyd yn ceisio creu Cynllun Fetio a Gwahardd newydd, a than y cynllun hwn bydd yn rhaid i unigolion sy'n dymuno ymwneud â rhai mathau o weithgareddau gyda phlant neu oedolion agored i niwed wneud cais i fod yn destun monitro gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni fydd bellach unrhyw ran gan weinidogion yn y gwaith o benderfynu a ddylid gwahardd unigolion penodol rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed. Ystyrir cynnwys unigolion ar y rhestr fesul achos a darperir ar gyfer cynnwys awtomatig yn achos unigolion a gafwyd yn euog o rai troseddau a gaiff eu pennu yn y rheoliadau.

**Mae'r Mesur yn cwmpasu Cymru a Lloegr.**

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwer i wneud rheoliadau a chadw rhestr o dan adran 142 yn Neddf 2002. Yn ymarferol, mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer ei bwerau neu ei phwerau disgresiwn ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan drefniant concordat.

**Crynodeb o'r prif bwyntiau**

Ar hyn o bryd mae pobl sy'n gobeithio gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed yn cael eu fetio trwy drefn lle bydd cyflogwyr yn gwneud cais i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol am ddatgeliadau am ymgeiswyr newydd am swyddi, o dan drefniadau a nodir yn Neddf yr Heddlu 1997. Mae datgeliadau'r Swyddfa'n cynnwys gwybodaeth o gronfeydd data'r heddlu a chofnodion yr heddlu lleol am gofnod troseddol yr unigolyn, a gallant hefyd gynnwys gwybodaeth arall sydd gan yr heddlu am yr unigolyn. Mae adrannau arweiniol y Llywodraeth hefyd yn cynnal tair rhestr wahanol o bobl a waherddir, am amrywiaeth eang o resymau, rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed. Dyma'r tair rhestr, ac mae pob un â'i meini prawf a'i gweithdrefnau gwahanol: Rhestr 99; Rhestr y Ddeddf Amddiffyn Plant; a'r Rhestr Diogelu Oedolion Agored i Niwed. Yr Adrannau Arweiniol yw'r Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Iechyd.

Canfu adroddiad Ymchwiliad Bichard, a gyhoeddwyd yn 2004, fethiannau systemig yn y systemau fetio a gwahardd presennol, ac argymhellodd sefydlu corff canolog i weinyddu cofrestr newydd o bobl sy'n dymuno gweithio gyda phlant. Nod y Mesur Diogelu Grwpiau Agored i Niwed yw rhoi ymateb y Llywodraeth i'r argymhelliad hwn ar waith. Cyn iddo gael ei gyflwyno yn Nhy'r Arglwyddi roedd pryderon pellach ynghylch adroddiadau am unigolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol, nad oeddent wedi eu cynnwys ar Restr 99 ac a fu'n gweithio mewn ysgolion.

Mae'r Mesur, a gyflwynwyd yn Nhy'r Arglwyddi ac sydd bellach wedi ei drosglwyddo i Dy'r Cyffredin, wedi cael croeso cyffredinol. Ei nod yw creu rhestr o unigolion a waherddir rhag gweithio gyda phlant a rhestr ar wahân ond un gysylltiedig o unigolion a waherddir rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed. Bydd y cyfrifoldeb dros gynnal y rhestrau hyn a phenderfynu a ddylid cynnwys unigolion ar y rhestrau yn eiddo, nid i weinidogion, ond i Fwrdd Gwahardd Annibynnol a gaiff ei greu gan y Mesur.

Mae'r Mesur yn ymwneud yn arbennig â dau ddosbarth cyffredinol o weithgaredd yn ymwneud â phlant ac oedolion agored i niwed a'r termau amdanynt yw "gweithgareddau a reoleiddir" a "gweithgareddau a reolir". Mae "gweithgareddau a reoleiddir" yn cwmpasu'n fras waith cyswllt clòs â phlant, gwaith mewn lleoedd fel ysgolion a chartrefi gofal a swyddi allweddol o gyfrifoldeb, fel cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol oedolion. Bydd "gweithgareddau a reolir" yn cwmpasu gwaith ategol mewn sefyllfaoedd addysg ac iechyd fel glanhau, arlwyo a gweinyddu.

Bydd unigolyn yn gallu gwneud cais i fod yn destun monitro gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gweithgareddau a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant neu oedolion neu'r ddau. Pan fo unigolyn yn destun monitro bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael gafael ar fanylion am unrhyw gollfarnau neu rybuddion a all fod ganddynt ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd ym meddiant heddluoedd a chaiff hyn ei drosglwyddo i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol at ddibenion y Bwrdd hwnnw. Caiff manylion yr unigolion hynny sy'n destun monitro eu cadw

gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o bosibl ar wefan ddiogel. Â nifer o eithriadau, dim ond yr unigolion hynny sy'n destun monitro a gaiff ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir. Bydd monitro'n broses barhaus fel y gellir trosglwyddo gwybodaeth newydd am unigolion i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol.

Bydd dyletswydd ar yr heddlu i ddarparu gwybodaeth berthnasol at ddibenion monitro. Bydd dyletswydd ar weithwyr cyflog, awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol a rheoleiddio ac eraill i gyfeirio gwybodaeth a bennir at y Bwrdd Gwahardd Annibynnol mewn rhai amgylchiadau ac i ddarparu gwybodaeth o'r fath os bydd y Bwrdd yn gofyn iddynt wneud hynny. Mae mesurau i annog rhannu gwybodaeth rhwng y gwahanol grwpiau hyn a'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol ymhlith nodweddion allweddol y system newydd a grëwyd gan y Mesur.

### Atodir y darpariaethau yn y Mesur gan dramgwyddau troseddol y bwriedir iddynt:

- rwystro unigolion a waharddwyd rhag ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir gyda phlant neu oedolion agored i niwed
- sicrhau bod y bobl y caniateir iddynt ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir gyda phlant neu oedolion agored i niwed yn destun monitro

- sicrhau bod cyflogwyr perthnasol yn gwirio a yw unigolyn wedi ei wahardd neu'n destun monitro cyn cael unigolyn i ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant neu oedolion agored i niwed

Mae'r Llywodraeth wedi pwysleisio nad yw'n dymuno ymyrryd â threfniadau teuluol preifat. Ni fydd gofalwyr mewn perthynas deuluol glòs yn destun gwirio gorfodol. Bydd pobl y mae mwy o risg iddynt gael eu cam-drin yn gallu defnyddio'r broses fetio ganolog mewn perthynas ag unigolion sy'n rhoi'r cymorth hwn. Fodd bynnag, mewn llawer achos, aelodau o'r teulu neu gyfeillion yr ymddiriedir ynddynt sy’n rhoi cymorth i oedolyn agored i niwed ac nid yw'r Llywodraeth yn credu ei bod yn briodol gosod gofynion gorfodol arnynt hwy.

### Dogfennau allweddol eraill:

- Y Mesur

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmbills/194/2006194.pdf

- Nodiadau esboniadol

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmbills/194/en/06194x--.htm

- Papur Ymchwil Llyfrgell Ty'r Cyffredin ar y Mesur

http://www.parliament.uk/commons/lib/research/rp2006/rp06-035.pdf

Papurau i’w nodi sy'n benodol i Gymru:

- Datganiad Cabinet (Ion 2006) – Trefniadau ar gyfer gwirio cefndir pobl sydd am weithio gyda phlant a gwahardd pobl anaddas

  http://www.wales.gov.uk/organicabinet/content/statements/2006/170106-vetting-e.doc

- Adroddiad Estyn (Ebrill 2006) Arolwg o Weithdrefnau ar gyfer Archwilio Cefndir Staff Ysgolion ac Oedolion Eraill

http://www.estyn.gov.uk/Publications/cy_Remit_CRB_vetting_survey_0506.pdf

- Ein Cadw’n Ddiogel – Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed (Chwefror 2006)

  http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/403821211/40382121/Final_Report_incorporating_1.pdf?lang=en

- Datganiad Cabinet (Mai 2006) - Canllawiau Diogelwch ar gyfer Ysgolion. Mae'r datganiad yn rhoi adroddiad ar yr hyn a wnaed i weithredu deddfwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a datblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau addysg lleol ac ysgolion ynghylch eu dyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant http://www.cymru.gov.uk/organicabinet/content/statements/2006/080506-so31-w.doc

- Papur y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Mehefin 2006) - Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy’n Agored i Niwed. Mae'r papur yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy’n Agored i Niwed ac yn amlinellu'r amserlen ar gyfer ystyried yr Adroddiad ymhellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

  http://www.wales.gov.uk/servlet/CentralServlet?
  area_code=37D6A89F00087B550000121400000000&document_code=N0000000000000000000000000045698&month_year=6|
  2006&p_arch=post&module=dynamicpages

**Enw Cyswllt**
**David Blair**
**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
**Est. 8691**